




Prifysgol Abertawe
Swansea University



Trŵ Lyf

Darllenwch y crynodeb hwn o blot y stori.

1. Mae Heledd yn 11 oed. Mae hi ar wyliau (*on holiday*) ac mae hi'n aros gyda'i nain / mam-gu (*grandmother*). Mae rhaid iddi hi wneud ei gwaith cartref Saesneg. Mae Heledd yn gwneud gwaith cartref am farddoniaeth. Mae'r stori'n agor gyda Heledd yn gofyn cwestiwn i'w mam-gu:

Heledd: 'Nain?'

Gwen: 'Ia, nghariad i?'

Heledd: Be' 'di *unrequited love*?'

2. Mae Heledd yn edrych yn y geiriadur (*dictionary*) am help. Mae Gwen yn esbonio wrth Heledd beth ydy *unrequited love*. Mae Heledd yn dweud ei bod hi'n deall yr ymadrodd (*phrase*) achos dyna sut mae hi'n teimlo am Harry Styles, sy'n canu yn y band 'One Direction'. Mae hi'n dweud ei bod hi'n cusanu (*kiss*) Harry Styles bob nos - ond dim ond ar y poster ar y wal!

3. Mae Heledd yn gwglo llun o Harry Styles ac yn dangos y llun i'w mam-gu. Mae Harry Styles yn atgoffa Gwen o rywun arall. Rhywun oedd yn yr ysgol gyda hi. Mae hi'n dechrau meddwl am yr amser pan oedd hi yn yr ysgol, flynyddoedd yn ôl...

4. Cofiodd Gwen sut roedd hi'n edrych ymlaen i fynd i'r ysgol bob bore. Pam? Oedd hi'n hoffi astudio? Nac oedd! Ond roedd hi'n hoffi mynd i'r ysgol er mwyn gweld bachgen golygus (*handsome*) o'r enw Eifion Williams. Roedd e'n chwarae pêl-droed yn dda. Roedd e'n arogl'n hyfryd (*smelt lovely*) hefyd. Roedd Gwen yn teimlo fel llewygu (*faint*) pan oedd oedd Eifion yn agos (*nearby*). Roedd Eifion yn canu'r gitâr (*played the guitar*) mewn band ac roedd Gwen yn meddwl ei fod e fel Elvis. Ond roedd problem! Roedd Eifion yn mynd allan gyda Catherine Humphreys.

5. Un diwrnod, roedd Gwen mewn gwrs fathemateg. Roedd hi'n breuddwydio (*dream*) am Eifion ac yn dwdlo'r enw 'Gwen Elisabeth Williams'. Gwen Elisabeth Roberts oedd ei henw ond roedd hi'n breuddwydio am fod yn wraig i Eifion (*about being Eifion's wife*). Yn sydyn (*suddenly*), dwedodd yr athro wrth Gwen i symud desg. Roedd disgybl arall (*another pupil*) yn ddrwg ac roedd yr athro eisiau iddo fe eistedd yn y ffrynt (*wanted him to sit in the front*). O nawr ymlaen (*from now on*), roedd yr athro eisiau i Gwen eistedd drws nesaf i Eifion yn y dosbarth mathemateg bob tro (*every time*)! Y noson honno (*that night*), doedd Gwen ddim yn gallu cysgu. Roedd hi mor gyffrous. Y bore wedyn, doedd hi ddim yn gallu bwyta brechwast. Roedd hi'n glaf o gariad (*lovesick*).

6. Un diwrnod, gofynnodd Eifion i Gwen, "Wyt ti wedi gwneud dy waith cartref?" Roedd Eifion eisiau copïo ei gwaith hi (*copy her work*). Roedd Gwen mewn cariad gyda fe, felly wrth gwrs roedd hi'n fodlon (*willing*) gadael i Eifion gopïo. Digwyddodd hyn dro ar ôl tro (*time after time*).

7. Doedd Mai, ffrind Gwen, ddim yn hapus. Dywedodd hi wrth Gwen, "Iwsio chdi mae o" (*"He's using you"*). Ond roedd Gwen yn barod (*ready*) i wneud unrhyw beth (*anything*) er mwyn ennill calon Eifion (*to win Eifion's heart*).

8. Yn anffodus i Gwen, sylweddolodd yr athro, Mr Glyn Thomas, fod gwaith Gwen ac Eifion yn debyg iawn. Pan ofynnodd Mr Thomas pwy oedd ar fai (*who was to blame*), dywedodd Eifion gelwydd (*a lie*). Dywedodd e fod Gwen wedi copio ei waith e! Cafodd Gwen *detention*. Doedd dim ots gyda Gwen (*Gwen didn't mind*) ond roedd Mai yn grac (*angry!*):

Mai: “Ma’ gin hwnna wyneb!”

Wynab lyfli, meddyliodd Gwen, yn dal yn ddall.

Mai: Sglyfaeth di-asgwrn cefn ydi o! (*He’s a spineless brute!*)

9. Ymddiheurodd Eifion (apologised) i Gwen. Ar ôl dweud sori, winciodd e a gwenu ar Gwen (*he winked and smiled at Gwen*). Roedd Gwen wrth ei bodd (*ecstatic!*)

10. Yna, clywodd Gwen fod Eifion wedi gorffen gyda Catherine, ei gariad. Roedd Gwen eisiau gwenu!

11. Ar y nos Wener yna, roedd dawns yr ysgol (*school dance/ball*). Roedd Gwen yn gobeithio y byddai Eifion yn gofyn iddi fynd, ond ofynnodd e ddim. Roedd Gwen yn gwisgo ffrog newydd ac yn edrych yn hyfryd (*lovely*). Roedd ei gwallt coch yn edrych yn bert (*pretty*) hefyd. Ond doedd hi ddim yn gallu gweld Eifion yn y ddawns.

12. Yn sydyn, gwelodd Eifion. Roedd e’n edrych yn smart! Sylweddolodd Gwen fod Eifion yn edrych arni hi. Wedyn, daeth Eifion at Gwen a gofyn iddi hi ddawnsio gyda fe. Dywedodd Eifion wrth Gwen: “Ti’n edrach yn ffantastig.” Roedd Gwen yn gwenu o glust i glust. Roedd hi’n dawnsio gydag Eifion! Roedd hi yn ei freichiau e (*in his arms!*)

13. Ond, yn anffodus, roedd Mai yn barod i fynd adref – roedd ei brawd hi’n aros amdanyn nhw yn y car!







14. Cyn dweud hwyl fawr, cusanodd Eifion Gwen... (*Eifion kissed Gwen!*) OND, roedd yn ofnadwy. Doedd e ddim yn gallu cusanu ac roedd ei anadl e’n drewi. Roedd Gwen eisiau cyfogi (*wanted to be sick*). Dyna siom! (*What a disappointment*).


15. Yna, mae Gwen yn y presennol eto ac mae Heledd yn gofyn iddi hi pam mae hi’n gwenu. Mae taid/tad-cu Heledd yn dod i’r ystafell. Rydyn ni’n dysgu bod Gwen wedi priodi dyn o’r enw Owen - brawd Mai! Y brawd ddaeth i gasglu’r ddwy ferch o’r ddawns yn ei gar. Rydyn ni’n dysgu ei fod e wedi syrthio mewn cariad gyda Gwen ar noson y ddawns. Rydyn ni’n dysgu ei fod yn dda am gusanu! Mae Gwen ac Owen mewn cariad hyd heddiw ac yn byw’n hapus iawn.




Mae'r lluniau hyn yn cynrychioli gwahanol ddigwyddiadau yn y stori. Rhifwch nhw er mwyn eu rhoi nhw yn y drefn gywir.













Parwch yr ymatebion a'r digwyddiadau. Mae'r un cyntaf wedi ei wneud fel enghraifft. (Mae'r atebion ar y dudalen nesaf, ond peidiwch ag edrych tan i chi orffen eich atebion chi!)

Pethau sy'n digwydd yn y stori.	Ymateb Gwen.
Byddai Gwen yn gweld Eifion yn y cantîn (<i>canteen</i>) / yn chwarae pêl-droed. Roedd ganddo fe goesau cyhyrog (<i>muscular legs</i>). 	Byddai hi'n aroglï (<i>She'd smell</i>) powdr golchi dillad (<i>washing powder</i>) yn y siop a byddai hi'n meddwl am Eifion.
Roedd Gwen yn meddwl bod Eifion yn aroglï'n hyfryd (<i>smelt lovely</i>), fel powdr golchi dillad (<i>like washing powder</i>). 	Roedd calon Gwen yn torri (<i>break</i>) pan oedd hi'n gweld nhw gyda'i gilydd. 
Roedd Eifion yn chwarae mewn band. 	Byddai calon (<i>heart</i>) Gwen yn neidio (<i>flutter/jump</i>).
Ar yr iard (<i>school yard</i>), byddai Eifion yn dal (<i>hold</i>) llaw ei gariad (<i>his girlfriend's hand</i>), Catherine. Yng nghefn y bws, bydden nhw'n snogio (<i>snog</i>). 	Roedd Gwen yn meddwl bod Eifion fel Elvis. 

Pethau sy'n digwydd yn y stori.	Ymateb Gwen.
Roedd Gwen yn y dosbarth mathemateg.	Roedd Gwen yn meddwl bod hyn yn arwydd (<i>a sign</i>) bod Eifion yn ei hoffi hi.
Mewn gwrs fathemateg, siaradodd Eifion gyda hi.	Doedd Gwen ddim yn gwranddo ar yr athro. Roedd Gwen yn dwdlo (<i>doodle</i>) 'Gwen Elisabeth Williams' ac yn breuddwydio (<i>dream</i>) am fod yn wraig i Eifion (<i>about being a wife to Eifion</i>).
Roedd Eifion yn copïo gwaith cartref Gwen.	Roedd ei chalon hi'n curo'n gyflym (<i>Her heart was beating quickly</i>)! 

Pethau sy'n digwydd yn y stori.	Ymateb Gwen.
Roedd Mai, ei ffrind, yn dweud bod Eifion yn defnyddio (<i>was using</i>) Gwen.	Doedd dim ots gyda Gwen (<i>Gwen didn't care</i>). "Roedd y <i>detention</i> , y llinellau a'r cerydd...yn werth y cyfan er mwyn cael gwên a winc gan Eifion." (<i>"The detention, the lines and the row were worth it all to have a smile and a wink from Eifion."</i>)
Dywedodd Eifion gelwydd (<i>a lie</i>). Dywedodd e fod Gwen wedi copïo ei waith. Cafodd Gwen 'detention'.	Prynodd Gwen ffrog newydd. Roedd hi'n meddwl am Eifion drwy'r ddawns (<i>all through the ball</i>).
Clywodd Gwen fod Eifion wedi gorffen gyda Catherine, ei gariad. 	Doedd Gwen ddim yn poeni am Catherine. Roedd hi'n teimlo mor hapus. 
Roedd dawns yr ysgol ar y nos Wener. 	Doedd dim ots gyda Gwen. "Byddai'n fodlon rhoi a gwneud unrhyw beth i Eifion." (<i>"She was willing to do anything for Eifion."</i>)

Atebion!

	Pethau sy'n digwydd yn y stori.	Ymateb Gwen.
t.86	Byddai Gwen yn gweld Eifion yn y cantîn (<i>canteen</i>) / yn chwarae pêl-droed. Roedd ganddo fe goesau cyhyrog (<i>muscular legs</i>). 	Byddai ei chalon hi'n neidio (<i>Her heart would flutter/jump</i>). 
t.87	Un diwrnod, bwriodd y ddau i mewn i'w gilydd (<i>the two knocked into each other</i>) ar y coridor.	Roedd Gwen yn teimlo fel llewygu (<i>like fainting</i>). 
t.87	Roedd Gwen yn meddwl bod Eifion yn arogl'i'n hyfryd (<i>smelt lovely</i>), fel powdr golchi dillad (<i>like washing powder</i>). 	Byddai hi'n arogl (<i>She'd smell</i>) powdr golchi dillad (<i>washing powder</i>) yn y siop a byddai hi'n meddwl am Eifion.
t.87	Roedd Eifion yn chwarae mewn band. 	Roedd Gwen yn meddwl ei fod e fel Elvis.
t.87	Ar yr iard (<i>school yard</i>), byddai Eifion yn dal (<i>hold</i>) llaw ei gariad (<i>his girlfriend's hand</i>), Catherine. Yng nghefn y bws, bydden nhw'n snogio (<i>snog</i>). 	Roedd calon Gwen yn torri. 
t.88	Roedden nhw yn y dosbarth mathemateg.	Roedd Gwen yn ysgrifennu 'Gwen Elisabeth Williams' ac yn breuddwydio (<i>dream</i>) am fod yn wraig i Eifion (<i>about being a wife to Eifion</i>).
tt.89-90	Symudodd yr athro Gwen i eistedd drws nesaf i Eifion yn y gwersi mathemateg.	Doedd Gwen ddim yn gallu cysgu na bwyta. Roedd hi'n glaf o gariad (<i>lovesick</i>). 
t.90	Mewn gwrs fathemateg, siaradodd Eifion gyda hi.	Roedd ei chalon hi'n curo'n gyflym (<i>Her heart was beating quickly!</i>) 
t.91	Roedd Eifion yn copïo gwaith cartref Gwen.	Roedd Gwen yn meddwl bod hyn yn arwydd (<i>a sign</i>) bod Eifion yn ei hoffi hi.
t.92	Roedd Mai, ei ffrind, yn dweud bod Eifion yn defnyddio (<i>was using</i>) Gwen.	Doedd dim ots gyda Gwen. "Byddai'n fodlon rhoi a gwneud unrhyw beth i Eifion." ("She was willing to do anything for Eifion.")
t.93	Dywedodd Eifion gelwydd (a lie). Dywedodd e fod Gwen wedi copïo ei waith.	Doedd dim ots gyda Gwen (<i>Gwen didn't care</i>). "Roedd y <i>detention</i> , y llinellau a'r cerydd...yn werth y cyfan er mwyn cael gwên a winc gan Eifion." ("The <i>detention</i> , the lines and the row were worth it all to have a smile and a wink from Eifion.")
tt.93-94	Clywodd Gwen fod Eifion wedi gorffen gyda Catherine, ei gariad. 	Roedd Gwen yn teimlo mor hapus. 
t.94	Roedd dawns yr ysgol ar y nos Wener. 	Prynodd Gwen ffrog newydd. Roedd hi'n meddwl am Eifion drwy'r ddawns (<i>all through the ball</i>).

Ydych chi'n meddwl y byddai Eifion wedi gwneud Gwen yn hapus?

Pwyntiau positif 😊	Pwyntiau negyddol ☹️

GWAITH YSGRIFENNU: YMARFER AR GYFER YR ARHOLIAD

Yn y stori fer 'Trŵ Lyf?' gan Marilyn Samuel, rydyn ni'n darllen bod Gwen yn ffansio bachgen o'r enw Eifion pan oedd hi yn yr ysgol. **Ydych chi'n meddwl y byddai Eifion wedi gwneud Gwen yn hapus? Pam / Pam na?** (Ysgrifennwch tua 200 o eiriau.) [15]

Gallech chi sôn am:

- gymeriad Eifion
- teimladau Gwen at Eifion
- barn Mari, ffrind Gwen, am Eifion